
Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Gwasanaethau niwroddatblygiadol yng Nghymru

Briff Ymchwil

**Gorffennaf 2026**



Rhagor o wybodaeth:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NS**

Tel: **0300 200 6565**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Gwasanaethau niwroddatblygiadol yng Nghymru

Briff Ymchwil

**Gorffennaf 2026**

**Awdur:**
Gwennan Hardy

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi gwybodath a data am wasanaethau niwroddatblygiadol yng Nghymru.

Mae'n canolbwyntio ar y galw am wasanaethau diagnostig niwroddatblygiadol, pa wasanaethau sydd ar gael i gefnogi pobl ag ADHD ac awtistiaeth, a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau a gynigir yng Nghymru.

Mae hefyd yn rhoi atebion i rai cwestiynau cyffredin am hawliau oedolion a phlant â chyflyrau niwroddatblygiadol o ran addysg a gofal cymdeithasol.

**Rhagor o wybodaeth:**
**ymchwil.senedd.cymru**



# Cynnwys

**1. Beth yw cyflyrau niwroddatblygiadol? ........................................ 7**

**2. Pa mor gyffredin yw cyflyrau niwroddatblygiadol? ............... 8**

**3. Pa wasanaethau diagnostig sydd ar gael yng Nghymru?.... 9**

Gwasanaethau i blant a phobl ifanc........................................................................................ 9

Gwasanaethau i oedolion ........................................................................................................ 9

Asesiadau preifat.......................................................................................................................... 9

Pa mor hir mae'n ei gymryd i gael asesiad?............................................................................ 10

**4. Beth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i wella gwasanaethau niwroddatblygiadol? ......................................... 12**

Gwasanaethau Awtistiaeth ......................................................................................................12

Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth...........................................................................................13

**5. Addysg a chyflyrau niwroddatblygiadol..................................... 15**

A oes angen diagnosis ar ddarparwyr addysg cyn darparu cymorth? .............16

**6. Gofal cymdeithasol a chyflyrau niwroddatblygiadol.............17**

**7. Ffynonellau eraill o gymorth a chefnogaeth............................18**

Cymorth iechyd meddwl...........................................................................................................19

# 1. Beth yw cyflyrau niwroddatblygiadol?

Mae cyflyrau niwroddatblygiadol yn grŵp o **anhwylderau ymddygiadol a gwybyddol** sy'n effeithio ar weithrediad yr ymennydd. Gallant effeithio ar bethau fel ymddygiad cymdeithasol, sgiliau iaith, sgiliau echddygol a’r gallu i ddysgu.

Rhai cyflyrau niwroddatblygiadol cyffredin yw:

- anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD);
- awtistiaeth neu anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASD);
- anawsterau dysgu (fel dyslecsia neu ddyscalcwlia);
- dyspracsia neu anhwylder cydsymud datblygiadol (DCD); a
- Syndrom Tourette ac anhwylderau tic eraill.

Mae nifer gynyddol o bobl yng Nghymru yn ceisio cael **diagnosis ar gyfer ADHD neu awtistiaeth**. Mae’r briff hwn yn canolbwyntio’n bennaf ar gymorth i bobl ag ADHD ac awtistiaeth a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu eu hanghenion.

# 2. Pa mor gyffredin yw cyflyrau niwroddatblygiadol?

Mae'r **Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol** yn amcangyfrif bod tua 1% o boblogaeth y DU ar y sbectrwm awtistiaeth. Yn ôl **ADHD UK**, amcangyfrifir bod nifer yr achosion o ADHD tua 5% ar gyfer plant a rhwng 3 – 4% ar gyfer oedolion yn y DU.

Ar hyn o bryd nid oes ffynhonnell ddata gynhwysfawr ar nifer y bobl sydd wedi cael diagnosis o gyflyrau niwroddatblygiadol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ddata a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau yng Nghymru sy'n dangos nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau neu'n cael cymorth ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol.

- Yn 2023-24, cafodd dros 7,501 o atgyfeiriadau ar gyfer oedolion eu **gwneud i'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig**, yr oedd 65% ohonynt yn gofyn am asesiadau diagnostig ar gyfer awtistiaeth; ac

- Yn 2024-25, **adroddwyd** bod 2.4% o ddisgyblion Cymru ag ASD fel Angen Dysgu Ychwanegol (ADY) / Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), tra adroddwyd bod ADHD gan 0.5%.

Canfu **adolygiad o wasanaethau niwroddatblygiadol** gan Lywodraeth Cymru yn 2022 bod nifer cynyddol o blant ac oedolion yng Nghymru yn cael eu hamau o fod â chyflyrau niwroddatblygiadol. Mae'r adolygiad yn priodoli'r twf hwn i ymwybyddiaeth gynyddol o wahanol gyflyrau, ehangu meini prawf a throthwyon diagnostig, sefydlu gwasanaethau niwroddatblygiadol newydd, a chyflwyno cyfrifoldebau newydd ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol.

Gwnaeth **astudiaeth academaidd a gyhoeddwyd yn 2023** asesu dichonoldeb ac ymarferoldeb defnyddio data o gronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) Cymru i nodi'r rhai hynny a oedd wedi cael diagnosis o ADHD neu ASD yn ystod plentyndod. Ymhlith sampl o unigolion a aned rhwng 1 Ionawr 1991 a 31 Rhagfyr 2000, roedd gan gyfanswm o 7726 o unigolion ddiagnosis wedi'i gofnodi o ADHD erbyn eu bod yn 18 oed, sef 1.4% o gyfanswm poblogaeth Cymru yn y grŵp oedran hwnnw. Roedd 5001 o unigolion wedi cael diagnosis o ASD yn ystod plentyndod, sef 0.9% o'r boblogaeth.

# 3. Pa wasanaethau diagnostig sydd ar gael yng Nghymru?

Mae gwahanol lwybrau diagnostig ac asesu ar gael i oedolion a phlant.

## Gwasanaethau i blant a phobl ifanc

Gall plant dan 18 oed ddefnyddio **llwybr Niwroddatblygiadol Cymru gyfan** ar gyfer asesu a chael diagnosis. Mae gan bob bwrdd iechyd Wasanaeth Asesu a Diagnosis Niwroddatblygiadol penodol i blant a phobl ifanc. Yn gyffredinol, mae angen atgyfeiriad gan feddyg teulu neu weithiwr addysg proffesiynol er mwyn mynd at y gwasanaeth hwn.

Noder, ni ddylai fod angen diagnosis ar blant a phobl ifanc er mwyn dechrau cael cymorth drwy eu hysgol neu sefydliad addysg bellach (gweler Adran 5 isod).

## Gwasanaethau i oedolion

Mae gan bob bwrdd iechyd **Wasanaeth Awtistiaeth Integredig** sy'n cynnig asesiad diagnostig awtistiaeth i oedolion, a gwasanaethau cymorth i oedolion awtistig, rhieni/gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol. Yn gyffredinol, gall oedolion gael mynediad at y gwasanaeth hwn yn uniongyrchol, neu efallai y cewch eich cyfeirio gan weithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol.

Er nad oes cynnig cyson ledled Cymru ar gyfer oedolion â chyflyrau niwroddatblygiadol eraill, mae rhai byrddau iechyd yn darparu gwasanaethau penodol ar gyfer cyflyrau (fel ADHD). Dylai meddyg teulu allu darparu gwybodaeth am wasanaethau perthnasol yn ei ardal.

Yn 2023, roedd Llywodraeth Cymru **wedi datgan** ei bod yn gweithio tuag at lenwi bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol fel ADHD fel rhan o'i Raglen Gwella Niwrogyfeirio. Yn 2026, sefydlodd **grŵp gorchwyl a gorffen ADHD oedolion** i ddatblygu opsiynau i wella gwasanaethau i oedolion sy’n aros am asesiadau.

## Asesiadau preifat

Mae yna nifer o wasanaethau sy'n cynnig asesiadau y telir amdanynt ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol. Er y gall gwasanaeth asesu preifat gynnig

amseroedd aros byrrach, bydd angen i unigolion dalu costau asesiad, a fydd yn amrywio yn dibynnu ar y darparwr.

Nid yw cael diagnosis preifat ychwaith yn gwarantu y bydd rhywun yn gallu cael mynediad at driniaeth neu feddyginiaeth drwy'r GIG. Er y gall fod yn bosibl cael **cytundeb gofal a rennir** er mwyn cael mynediad at driniaeth y GIG ar ôl cael diagnosis preifat, **bu adroddiadau** bod pobl yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd cael cytundeb gan eu meddyg teulu i wneud hyn. Mae **ADHD Aware** yn nodi, er y bydd rhai meddygon teulu yn cydnabod diagnosis preifat, na fydd eraill yn gwneud hynny, sy'n golygu efallai na fydd yn bosibl cael meddyginiaeth neu driniaeth drwy'r GIG. Mae'n argymell siarad â meddyg teulu cyn cael diagnosis preifat.

Mae'r **Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth yn datgan** efallai na fydd rhai awdurdodau lleol yn derbyn canlyniadau diagnosis awtistiaeth preifat ac yn argymell aros ar y rhestr aros am asesiad GIG, hyd yn oed i'r rhai sy'n penderfynu ceisio asesiad preifat hefyd.

Yn 2026, dywedodd Llywodraeth Cymru flaenorol ei bod yn **ystyried opsiynau** i wella gwasanaethau i oedolion sy'n aros am asesiadau ADHD, a oedd yn cynnwys gwaith ar gytundebau gofal a rennir.

## Pa mor hir mae'n ei gymryd i gael asesiad?

Gall fod amseroedd aros hir i gael asesiad ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol.

Roedd Llywodraeth flaenorol Cymru wedi **gosod targed** y dylai plant a phobl ifanc a gyfeiriwyd at lwybr niwroddatblygiadol Cymru gyfan fynychu apwyntiad asesu cyntaf o fewn 26 wythnos i gael eu hatgyfeirio. Nid oes polisi amseroedd aros ar gyfer oedolion ar hyn o bryd.

Mae **canllawiau i blant a phobl ifanc** y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn argymell y dylid dechrau asesiad diagnostig o fewn 3 mis i atgyfeiriad at wasanaethau awtistiaeth. Er bod canllawiau NICE **yn cael eu defnyddio yng Nghymru** i gynllunio a darparu gwasanaethau, nid ydynt yn ofynion gorfodol.

Nid yw Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cyhoeddi data ar amseroedd aros yn rheolaidd. Mae data a gyhoeddwyd drwy ddatganiadau Rhyddid Gwybodaeth yn **dangos**, ym mis Mehefin 2023, fod 67% o blant a phobl ifanc wedi bod yn aros am 26 wythnos neu fwy am asesiad ADHD neu ASD, a bod 45% wedi bod yn aros dros flwyddyn.

Ym mis Chwefror 2025, **cyhoeddodd y BBC ffigurau** yn dangos bod nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio am asesiadau wedi bod yn cynyddu, a bod naid wedi bod yn y nifer sy'n aros dros flwyddyn.

Ym mis Mehefin 2025, **cyhoeddodd** y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar y pryd fod arosiadau pedair blynedd ar gyfer asesiadau niwroddatblygiadol plant wedi'u dileu ar draws pob bwrdd iechyd. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i ddileu arosiadau tair blynedd erbyn mis Mawrth 2026. Ym mis Mehefin 2026, nid oedd unrhyw ddata wedi'i gyhoeddi i ddangos a yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd.

# 4. Beth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i wella gwasanaethau niwroddatblygiadol?

Yn 2015, sefydlodd Llywodraeth flaenorol Cymru raglen **Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP)** dan arweiniad y GIG gyda'r nod o archwilio ffyrdd o ail-lunio a gwella'r gwasanaethau lles emosiynol ac iechyd meddwl a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

O 2019, cafodd gwaith i wella gwasanaethau niwroddatblygiadol ei gynnwys fel ffocws allweddol ar gyfer y rhaglen. Cyhoeddodd y rhaglen a **Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Niwroddatblygiadol**, a oedd yn dadlau dros ddull system gyfan a fyddai'n chwalu'r rhwystrau rhwng gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

## Gwasanaethau Awtistiaeth

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Gynllun Gweithredu Strategol Anhwylder Sbectrwm Awtistig** yn 2016, a sefydlodd **Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig** newydd. Ategwyd hyn gan **fuddsoddiad o £13m** hyd at 2021, a **thaliad rheolaidd** o £3m y flwyddyn i gefnogi gwasanaethau awtistiaeth yng Nghymru ar ôl 2021.

Yn 2017, cyflwynwyd **Bil Awtistiaeth (Cymru)** gan Paul Davies AS yn dilyn balot llwyddiannus ar Fil Aelodau. Yn y pen draw, gwrthodwyd y Bil yn y Senedd ar ôl i gynnig i gytuno ar yr egwyddorion cyffredinol beidio â chael ei gytuno.

Yn lle hynny, ym mis Medi 2018 gwnaeth Llywodraeth Cymru **gyfres o ymrwymiadau i wella gwasanaethau awtistiaeth**. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyno **Cod Ymarfer statudol ar gyflenwi gwasanaethau awtistiaeth**. Mae'r cod ymarfer hwn yn rhoi gwybodaeth i awdurdodau lleol am lefel ac ystod y gwasanaethau a'r cymorth y disgwylir iddynt eu darparu i bobl awtistig o dan y ddeddfwriaeth bresennol, sef ***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*** a ***Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006***.

**Cynhaliwyd** gwerthusiad o'r Cod i asesu i ba raddau y mae'r dyletswyddau yn y Cod yn cael eu cyflawni. Mae adroddiad Cyfnod Dau, a gyhoeddwyd ym mis

Tachwedd 2025, yn gwneud argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru.

## Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth

Yn 2022, gwnaeth Llywodraeth Cymru **gyhoeddi adolygiad** o'r galw, capasiti a chynllun gwasanaethau niwroddatblygiadol i blant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'r adolygiad yn nodi bod y galw am asesiad diagnostig wedi mynd y tu hwnt i gapasiti'r gwasanaethau plant a'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig, gan nodi:

> *Mae bylchau rhwng y galw a'r capasiti mewn perthynas ag asesiadau diagnostig yn cynyddu amseroedd aros i blant, pobl ifanc, oedolion a theuluoedd ymhell y tu hwnt i'r hyn y byddai'r rhan fwyaf yn ei ystyried yn dderbyniol, gan ohirio cymorth (yn yr achosion hynny lle mae'r cymorth yn dibynnu ar ddiagnosis) a chyfrannu at rwystredigaeth. Mae'n golygu y gall problemau luosi a/neu waethygu oherwydd bod cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar yn cael eu colli, a disgrifiodd yr oedolion a'r teuluoedd a holwyd yr hyn yr oeddent yn teimlo oedd yn 'flynyddoedd coll' o ganlyniad i arosiadau hir cyn iddynt deimlo bod eu hanawsterau nhw, neu anawsterau eu plant, yn cael eu deall yn iawn.*

Yn dilyn yr adolygiad, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru** rhaglen wella genedlaethol newydd ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol, a ategwyd gan gyllid o £12m hyd at 2025. Yn ei chyhoeddiad, dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol ar y pryd y bydd y rhaglen yn:

> *…cefnogi datblygu gwasanaethau niwroddatblygiadol amserol a chyson i bob oed a fydd yn cynnwys gwasanaethau cyngor a chymorth ychwanegol, y mae mawr eu hangen, i rieni a gofalwyr.*

Ym mis Mai 2023, **dywedodd y Gweinidog ar y pryd** y bwriedir i'r rhaglen fynd i'r afael â'r 'bylchau a nodwyd' o ran cymorth ar gyfer cyflyrau niwrowahanol eraill, megis ADHD a syndrom Tourette.

Ym mis Mehefin 2025, dywedodd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant blaenorol ei bod yn **ailgyfeirio'r Rhaglen Gwella Niwroamrywiaeth** i ganolbwyntio ar leihau amseroedd aros asesiadau niwroddatblygiadol plant. Gosododd darged i ddileu arosiadau tair blynedd ar gyfer asesiadau niwroddatblygiadol plant.

Ym mis Mawrth 2026, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd **ddatganiad** yn cadarnhau bod byrddau iechyd ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwn. Nododd hefyd rai blaenoriaethau ar gyfer 2026-27, gan gynnwys:

- Ffocws parhaus ar leihau amseroedd aros, gan gynnwys cynnal y sefyllfa genedlaethol o ddileu arosiadau tair blynedd ar gyfer asesiadau niwroddatblygiadol plant;
- Annog cydweithio a rhannu dysgu i gefnogi datblygiad gwasanaethau mwy effeithlon a chyson i blant a phobl ifanc;
- Gwaith gan Berfformiad a Gwella'r GIG i ddatblygu safonau dilysu rhestrau aros cenedlaethol a chanllawiau atgyfeirio i driniaeth ar gyfer llwybrau niwroamrywiaeth;
- Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ADHD i oedolion i edrych ar opsiynau i wella gwasanaethau i oedolion sy'n aros am asesiadau, gan gynnwys gwaith ar gytundebau gofal a rennir.

# 5. Addysg a chyflyrau niwroddatblygiadol

Mae'n bosibl y bydd gan blant a phobl ifanc â chyflyrau niwroddatblygiadol hawl i gymorth neu gefnogaeth ychwanegol yn yr ysgol neu mewn addysg bellach.

Mae gan ysgolion, sefydliadau addysg bellach (SAB), awdurdodau lleol a chyrff y GIG ddyletswyddau o dan ***Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol ar Dribiwnlys Addysg (Cymru) 2018*** yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Mae'r system ADY yn disodli'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) flaenorol, gyda'r newidiadau'n cael eu cyflwyno'n raddol rhwng Medi 2021 ac Awst 2025. Gallwch ddarllen mwy am y cynigion hyn yn yr **erthygl hon gan Ymchwil y Senedd** a chanllaw i etholwyr.

Mae plant a phobl ifanc **yn cael eu cydnabod fel rhai ag ADY**:

- os ydynt yn cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, **neu**
- os oes ganddynt anabledd (at ddibenion *Deddf Cydraddoldeb 2010* – sydd ag effaith "sylweddol" neu "hirdymor") sy'n eu hatal neu'n eu llesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran; **ac**
- os yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn galw am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY).

Os oes gan blentyn ADY yna mae ganddo hawl i gynllun statudol **a elwir yn gynllun datblygu unigol (CDU)**. Bydd gan bobl ifanc hyd at 25 oed ag ADY hawl i CDU os ydynt mewn addysg bellach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **'pecyn cymorth' i rieni a gofalwyr**, sy'n darparu rhagor o wybodaeth am y system DDdY.

## A oes angen diagnosis ar ddarparwyr addysg cyn darparu cymorth?

Nid oes angen diagnosis cyn gwneud penderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, a rhoi cymorth ychwanegol ar waith. Mae paragraff 1.48 o'r **Cod ADY** yn nodi:

> *Hyd yn oed os bydd rhywfaint o dystiolaeth yn weddill sydd heb ei derbyn ac a allai roi darlun llawnach o raddau'r ADY neu'r DDdY – gan gynnwys, er enghraifft, lle y gellid bod wedi gofyn am ddiagnosis o gyflwr penodol ond ei fod heb ei dderbyn - os gellir llunio'r CDU, yna mae angen ei lunio.*

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau hyn sawl gwaith, gan gynnwys yn y **pecyn cymorth i rieni a gofalwyr**, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025. Mae'r pecyn cymorth yn ddweud "ni ddylid gohirio cymorth oherwydd amseroedd aros y GIG."

# 6. Gofal cymdeithasol a chyflyrau niwroddatblygiadol

O dan ***Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014***, mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion i bobl a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae'r rhain yn berthnasol i bawb ag anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys pobl â chyflyrau niwroddatblygiadol.

Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol i gynnal asesiad ar unrhyw un sy'n byw yn ei ardal y gall fod angen gwasanaethau arno, unwaith y daw'r awdurdod yn ymwybodol o'r angen hwnnw. Bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu a yw eich anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer darparu cynllun gofal a chymorth ffurfiol a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Gallwch ddarllen mwy yng **nghanllaw i etholwyr** Ymchwil y Senedd ar fanteisio ar ofal a chymorth. Mae'r canllaw yn nodi'r broses gychwynnol, hawliau unigol a chyfrifoldebau awdurdodau lleol wrth ddarparu gofal cymdeithasol i oedolion. Mae hefyd yn cyfeirio at ffynonellau eraill o gymorth a chefnogaeth a allai fod yn ddefnyddiol.

At hynny, mae'r **Cod Ymarfer ar gyflenwi gwasanaethau awtistiaeth** yn rhoi rhagor o fanylion am y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal a chymorth i bobl awtistig a'u teuluoedd/gofalwyr.

# 7. Ffynonellau eraill o gymorth a chefnogaeth

- Mae **Niwrowahaniaeth Cymru** (Awtistiaeth Cymru yn flaenorol) yn darparu gwybodaeth ac adnoddau am awtistiaeth a chyflyrau niwroddatblygiadol eraill, ac am y gwasanaethau a'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael ar-lein a ledled Cymru.
- Mae **Llinell Wrando Cyngor Cymunedol** (CALL) yn darparu gwasanaeth llinell wrando 24 awr. Gall y teleffonyddion hefyd ddarparu gwybodaeth am wasanaethau lleol neu genedlaethol ledled Cymru. Gallwch ffonio CALL ar 0800 132737 neu drwy anfon e-bost at CALL@HELPLINE.WALES.
- Mae **Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth** yn darparu gwasanaethau cymorth i bobl ar y sbectrwm awtistiaeth a'u teuluoedd.
- Mae **ADHD UK** yn darparu adnoddau ar-lein i bobl ag ADHD, gan gynnwys gwybodaeth am wneud cais am addasiadau rhesymol yn y gwaith a chymorth yn yr ysgol.
- Mae **ADHD Foundation** yn cynnig cymorth i bobl ag amrywiaeth o gyflyrau niwroddatblygiadol, gan gynnwys ADHD, awtistiaeth, dyslecsia, dyspracsia, a syndrom Tourette. Mae hefyd yn darparu hyfforddiant ac adnoddau i fusnesau, sefydliadau addysg a chyrff gofal iechyd.
- Mae **Cymdeithas Dyslecsia Prydain** yn darparu gwybodaeth a gwasanaethau i bobl ag anawsterau dysgu fel dyslecsia neu ddyscalcwlia, yn ogystal ag i rieni, gofalwyr neu athrawon.
- Mae **Tourettes Action** yn elusen cymorth ac ymchwil ar gyfer pobl â syndrom Tourette a'u teuluoedd.

## Cymorth iechyd meddwl

Er na fydd pawb sydd â chyflyrau niwroddatblygiadol yn profi anawsterau iechyd meddwl, mae yna **gyfraddau uchel o broblemau iechyd meddwl** ymhlith pobl â chyflyrau niwroddatblygiadol penodol.

Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi **taflen wybodaeth etholaeth ar gymorth iechyd meddwl** sy'n darparu gwybodaeth am ffynonellau cymorth gyda phroblemau iechyd meddwl a materion cysylltiedig eraill.